

## YMARFER 1: Sylwadau

On Wednesday I went underground<sup>1</sup>. I was looking for men, or rather the memory of men who had mined for gold in that Welsh hillside<sup>2</sup> on and off for maybe 2000 years<sup>3</sup>. The site at Dolaucothi is now owned by the National Trust who are making a marvellous job of rehabilitating the derelict workings and turning them into a most attractive visitors centre. A good place for industrial archaeologists of course but even to those of us who don't know the first thing about industry it is a truly fascinating mine which almost certainly dates back to the Romans.<sup>4</sup>

The history of such a mine can be problematical but the experts have got some of it sorted out and it is very satisfying to be taken below ground and have things explained down there in a world of colourful rocks and dripping water. Wearing your tin hat<sup>5</sup> and your miner's lamp you bend your back, say goodbye to the trees and the sunshine, and walk far inside the hill along a tunnel until you reach an interior hall where you can stand upright<sup>6</sup> and be told the story of the gold. Then more tunnels and more talks<sup>7</sup> until at last you clamber up rock steps and ladders<sup>8</sup> and emerge blinking into the daylight.

There is a welcoming friendliness everywhere<sup>9</sup> and it is especially refreshing<sup>10</sup> to be guided round<sup>11</sup> by enthusiastic young students who really do seem to want you to have a good day.

### 1. Cystrawen On Wednesday I went underground.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Ar ddydd Mercher...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Ddydd Mercher...*

SYLW:

Nid 'on a Wednesday I went underground' sydd yn y Saesneg ond 'On Wednesday I went underground'. Felly, nid yw *Ar ddydd Mercher* yn gywir yma. Y ffurf gywir i gyfieithu'r Saesneg fyddai, *Ddydd Mercher*. Enghraifft o enw yn treiglo'n feddal i roi adferf.

### 2. Ystyr in that Welsh hillside

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *yn y llechweddau*

2. *ar ochr y mynydd hwnnw*

3. *ar lethrau'r bryn/mynydd Cymreig*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *yn y llechwedd/bryn hwnnw yng Nghymru*

SYLW:

Go brin bod y ddau gynnig cyntaf yn cyfleu ystyr llawn y Saesneg yma. Nid yw *Cymreig* chwaith yn addas yn y cyd-destun hwn.

3. **Cywair/  
Ystyr**

**on and off for maybe 2000 years**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *bob yn ail â pheidio dros 200 o bosib o flynyddoedd.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *yn achlysurol dros oddeutu 2000 o flynyddoedd*
2. *yn ysbeidiol...*
3. *ar brydiau...*

SYLW:

Mae angen cymryd gofal manwl wrth deipio ffigurau. Mae tipyn o wahaniaeth rhwng *2000* o flynyddoedd a *200* o flynyddoedd!

4. **Cywirdeb**

**A good place for industrial archaeologists of course but even to those of us who don't know the first thing about industry it is a truly fascinating mine which almost certainly dates back to the Romans.**

Cyfieithu Aflwyddiannus:

1. *Mae'n le da i archeolegwyr diwydiannol wrth gwrs ond i'r rhai ohonom...*
2. *Mae'n lle da i archeolegwyr diwydiannol wrth gwrs ond i'r rheini ohonom...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae'n lle da i archeolegwyr diwydiannol, wrth gwrs, ond i'r rheini ohonom...*

SYLW:

1. Mae'n rhaid cydnabod bod y gwreiddiol yn ddiffygiol o ran atalnodi. Mae'r un nam yn cael ei adlewyrchu yn y brawddegau aflwyddiannus uchod. I allu cyfathrebu'n llwyddiannus, mae gofyn crynhoi rhai geiriau at ei gilydd a chadw eraill ar wahân. Ni ddylai'r cyfieithydd gael ei lethu gan arfer annerbyniol yn y gwreiddiol. Mae atalnodi'n synhwyrol fel y'i ceir yn y frawddeg llwyddiannus, yn rhwym o wella grym y cyfieithiad.

2. Sylwch hefyd ar y gwall treiglo yn Afl.1. Nid yw 'll' yn treiglo ar ôl yr 'yn' traethiadol.

5. **Cywirdeb**

**Wearing your tin hat**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *gwisgo eich cap tin*

2. *gwisgo'ch het tun*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *gwisgo'ch het dun*

SYLW:

1. Gan fod *het* yn enw benywaidd, bydd treigliad meddal yn yr ansoddair sy'n ei ddilyn yn Afl.2.
2. Sylwch ar sillafiad y gair '*tun*' yn Afl.1. Peidiwch â'i gymysgu â'r gair '*tin*' = 'pen ôl'.

6. **Cywair** **where you can stand upright**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Ile mae modd i chi sefyll i fyny'n syth*
2. *Ile gallwch sythu i fyny*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Ile gellwch yno sefyll yn syth*

SYLW:

Gochelwch rhag cael eich clymu gan eiriau'r Saesneg. Nid oes angen cynnwys yr *i fyny* yn yr enghreifftiau aflwyddiannus uchod.

7. **Cywirdeb/  
Cystrawen** **then more tunnels and more talks...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Yna mwy o dwnneli ac areithiau...*
2. *Mwy o dwnelu a fwy o siarad...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Rhagor o dwnneli a hanesion...*

SYLW:

1. Sylwch ar y gwallau sillafu dianghenraid (*dwnneli* a *dwnelu*).
2. Sylwch hefyd ar y treigliad anghywir – *a fwy* yn lle 'a mwy' yn Afl.2.
3. Mewn ysgrifennu safonol, disgwylir i'r ymgeiswyr allu gwahaniaethu rhwng 'mwy' a 'rhagor'. Gellwch gael rhagor o arweiniad ar hyn yn *Gramadeg y Gymraeg* (Peter Wyn Thomas), tt. 285–6.

8. **Cywair** **Clamber up rock steps and ladders...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *dringo i fyny grisiau cerrig*
2. *stryffaglo i fyny grisiau cerrig ac ysgolion*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *dringo grisiau cerrig ac ysgolion*

SYLW:

1. Gochelwch rhag cael eich clymu gan eiriau'r Saesneg. Nid oes angen cynnwys yr *i fyny* yn yr enghreifftiau aflwyddiannus uchod.
2. Mae'r cyfieithydd wedi anwybyddu'r geiriau 'and ladders' yn Afl.1. Mae'n rhaid cyfieithu'r testun i gyd!

**9. Cywair**

**There is a welcoming friendliness every where**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae yna gyfeillgarwch croesawgar ymhobman*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae pawb yn gyfeillgar ac yn groesawgar*

SYLW:

Mae'r cyfieithiad aflwyddiannus yn dangos beth sy'n digwydd wrth drosi geiriau'r gwreiddiol yn llythrennol. Mae'r cyfieithu llwyddiannus wedi ymryddhau ychydig o hualau'r gwreiddiol ac yn cyfleu'r ystyr yn fwy syml ac yn fwy dealladwy.

**10. Cywair**

**It is especially refreshing...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *mae'n arbennig o adfywiol*
2. *mae'n adfywiol iawn*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *mae'n arbennig o braf...*
2. *mae'n deimlad braf...*
3. *a braf iawn yw...*
4. *mae'n bleser...*

SYLW:

Mae'r enghreifftiau aflwyddiannus a nodir uchod yn adlewyrchu tuedd i droi'n ormodol at *Cysgeir* am awgrymiadau pan fydd gair neu ymadrodd yn peri trafferth. Mae cynigion yr ymgeiswyr hynny sydd wedi defnyddio'u dychymyg a'u synnwyr cyffredin yn rhagori llawer iawn ar awgrymiadau *Cysgeir*, nad oeddent yn hollol addas yn y cyd-destun dan sylw.

**11. Cystrawen**

**it is especially refreshing to be guided round...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *mae yn arbennig o amheuthun i gael eich arwain o gwmpas*
2. *Mae'n arbennig o braf i gael eich tywys o gwmpas*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *mae'n braf cael eich tywys gan...*

SYLW:

1. Nid oes angen yr arddodiad 'i' ar ôl *amheuthun* na *braf* yn y brawddegau aflwyddiannus.
2. Dyma enghraifft eto o ddilyn y Saesneg yn slafaidd: nid oes angen yr *o gwmpas* yn y Gymraeg.

- \* **Cywirdeb** Cafwyd nifer o wallau treiglo rhyfedd yn y cyfieithiadau, er enghraifft: 'there is a welcoming...' – *mae yno croeso*' a *lle allwch*.